Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

shrn.org.uk

# Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN)

Partneriaeth bolisi, ymarfer ac academaidd sy'n cefnogi iechyd a lles plant a phobl ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd ledled Cymru.

Amlinelliad ar gyfer ysgolion cynradd.

**2026**



Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles

Welsh Network of Health and Well-being Promoting Schools

hbsc HEALTH BEHAVIOUR IN SCHOOL-AGED CHILDREN

DECIPHer

GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

# Cynnwys


3. Pwy ydym ni

4. Beth rydym ni'n ei wneud

5. Cipolwg ar einhelfennau craidd

6. Y Rhwydwaith 2026: Amserlen i ysgolion cynradd

7. Ein rôl yn y Cwricwlwm i Gymru, a'r Dull Ysgol Gyfanar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol

8. Pam ddylai eich Ysgol ymuno â'r Rhwydwaith?

10. Ymunwch â ni

11. Dros ddegawd o ragoriaeth – ein llwyddiannau a'n heffaith




# 3. Pwy ydym ni

**Ers 2013, mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith) wedi dod ag ysgolion yng Nghymru ynghyd ag ymchwilwyr academaidd, llunwyr polisi ac ymarferwyr o feysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i hyrwyddo dulliau wedi'u llywio gan dystiolaeth i wella iechyd a lles plant a phobl ifanc mewn ysgolion.**

Mae'r Rhwydwaith wedi dod yn rhan unigryw ac amhrisiadwy o'r seilwaith iechyd a lles addysg yng Nghymru ac, at hynny, nid oes cost iddo o gwbl i ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir yng Nghymru.

Mae ein partneriaeth strategol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac integreiddio â Rhwydwaith Cymru o Ysgolion Hybu Iechyd a Lles (WNHWPS), ynghyd â buddsoddiad sylweddol a pharhaus gan Lywodraeth Cymru, wedi galluogi'r Rhwydwaith i dyfu'n rhwydwaith cenedlaethol o ymchwil a gwerthuso. Mae mwy na 30 o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru yn enwi bod y Rhwydwaith yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno a gwerthuso agendâu ac ymyriadau polisi iechyd a lles. Mae'r rhain yn cynnwys y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd a Llesiant Meddyliol (2021) ac Adroddiad Iach a Hapus (2019) Estyn.

*'I ddefnyddio data'r rhwydwaith a sut rydym ni'n ei ddefnyddio i wella ein hysgol y mae'r diolch am ein hadroddiad cadarnhaol gan Estyn.'*



# 4. Beth rydym ni’n ei wneud

**Nodau craidd y Rhwydwaith yw gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc trwy:**

**Ddarparu data trylwyr a phwrpasol ar iechyd a lles i ysgolion, partneriaid rhanbarthol a partneriaid cenedlaethol er mwyn galluogi hunanwerthuso a chynllunio gweithredu ar sail data ar draws meysydd iechyd ac addysg.**

Darparu seilwaith cenedlaethol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i weithio gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr o feysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i gyd-gynhyrchu ymchwil i iechyd a lles o ansawdd uchel, mewn ysgolion.

Cynhyrchu tystiolaeth ymchwil newydd ar y ffordd orau o wella iechyd a lles plant a phobl ifanc yn yr ysgol trwy hwyluso’r gwaith o gyd-gynhyrchu a gwerthuso ymyriadau ysgol gyfan, fel y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol a’r Cwricwlwm i Gymru.

Hwyluso’r gwaith o droi tystiolaeth ymchwil i iechyd a lles mewn ysgolion yn ymarfer, gan helpu ysgolion, a’r rhai sy’n eu cefnogi, i ddeall tystiolaeth ymchwil iechyd a sut gellir ei defnyddio i wella iechyd a lles.

# 5. Cipolwg ar ein helfennau craidd

## 1. Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith

Mae ysgolion cynradd a uwchradd yn ein rhwydwaith yn cwblhau arolwg iechyd a lles myfyrwyr dwyieithog, electronig bob dau blynedd, gyda'r ddau gydran yn gweithio'n gyfatebol i sicrhau casglu data cyson a chymharol ar draws lleoliadau.

Mae ein harolwg iechyd a lles myfyrwyr yn gofyn i blant yng ngrwpiau blwyddyn 3-6 a phobl ifanc yng ngrwpiau blwyddyn 7-13 am amrywiol agweddau ar eu hiechyd a'u lles, gan gynnwys gweithgarwch corfforol, maeth, a bywyd ysgol. Hefyd, mae'n cynnwys pynciau allweddol eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles da yn gyffredinol, fel cwsg a chysylltedd â'r ysgol.

## 2. Holiadur Amgylchedd yr Ysgol y Rhwydwaith

Caiff Holiadur Amgylchedd yr Ysgol y Rhwydwaith ei lenwi gan aelod o uwch Dîm Arwain yr Ysgol bob dwy flynedd ar yr un pryd ag y caiff Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith ei weinyddu. Mae'n caniatáu am archwilio cysylltiadau rhwng polisïau ac arferion yr ysgol (e.e. arweinyddiaeth yr ysgol; ethos yr ysgol; amgylchedd yr ysgol; dysgu trwy'r cwricwlwm; ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned) a deilliannau iechyd dysgwyr. O'i ddefnyddio ar y cyd ag Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith, mae'n rhoi cyfle unigryw i ysgolion asesu iechyd a lles dysgwyr yng nghyd-destun polisïau ac arferion eu hysgol eu hunain.

Defnyddir data Holiadur Amgylchedd yr Ysgol gan ysgolion fel cyfrwng archwilio i baratoi ar gyfer arolygiadau ysgol Estyn a darparu tystiolaeth o ymarfer ar eu cyfer.

Mae SHRN yn darparu ystod o adnoddau i helpu eich ysgolion i wneud y gorau o ddata. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau achos, blogiau, a chanllawiau ymarferol.

Mae SHRN a Iechyd Cyhoeddus Cymru i gytuno â'r Safonau Isaf Cenedlaethol ar gyfer WNHWPS

Y Rhwydwaith i gefnogi ymchwil i amrywiol agweddau ar amgylchedd yr ysgol ac amlygu sut gall ysgolion ddylanwadu ar iechyd a lles dysgwyr

## 3. Data ac adnoddau ategol y Rhwydwaith

Mae'r Rhwydwaith yn helpu ysgolion i ddeall tystiolaeth ymchwil iechyd a sut gellir ei defnyddio ar gyfer gwella iechyd. Mae'r Rhwydwaith yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac WNHPWS i ddarparu adnoddau wedi'u llywio gan dystiolaeth. Mae adnoddau'n cynnwys gweminarau, astudiaeth achos, a briffiau ymchwil i ymgysylltu â holl aelodau cymuned yr ysgol, a'u cefnogi, i ddeall anghenion.

# 6. SHRN 2026: Llinell amser i ysgolion cynradd

**Mehefin - Gorffennaf 2026**

**Recriwtio i'r Arolwg:**

Bydd gofyn i ysgolion sydd eisiau cymryd rhan yng nghasgliad data arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN) fod yn aelodau o'r rhwydwaith. Bydd ysgolion yn cael eu gwahodd i gofrestru i gasglu data a byddan nhw'n derbyn pecyn gwybodaeth yn amlinellu Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr SHRN a Holiadur Amgylchedd Ysgol (SEQ) SHRN.

**Medi – Rhagfyr 2026**

**Casglu data:**
Registered primary Schools:

- Derbyn Pecyn Cymorth Ysgol Arolwg SHRN ohonynt
- Yn anfon gwybodaeth at rieni a gofalwyr.
- Yn gweinyddu'r arolwg myfyrwyr gyda'u dysgwyr
- Yn llenwi Holiadur Amgylchedd yr Ysgol

**Gwanwyn 2027**

**Dosbarthu adroddiadau:**

Bydd ysgolion cynradd yn cael Adroddiad Data Iechyd a Lles Myfyrwyr pwrpasol eu Hysgol. Bydd adroddiad Holiadur Amgylchedd yr Ysgol ar gael ar ein gwefan.

***"Mae bod yn aelod o'r Rhwydwaith yn rhoi mynediad i'n hysgol i ymchwil, cymorth a gwybodaeth gyfredol a pherthnasol."***

# 7. Ein rôl ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru, a'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol

**Mae'r Rhwydwaith yn chwarae rhan arwyddocaol mewn datblygu a chyflwyno Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru, ynghyd â chynllunio, cyflwyno, monitro a gwerthuso'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol.**

Yn ogystal, mae'r Rhwydwaith yn ddull pwysig i ddysgwyr allu dylanwadau ar y weledigaeth ac ar gyflwyno gwasanaethau ac ymarfer sy'n effeithio ar eu lles, eu cyrhaeddiad a'u cyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol.

Trwy wreiddio llais y disgybl ym mholisïau'r ysgol, gall ysgolion gyflwyno amrywiaeth eang o fentrau lles, o weithgareddau allgyrsiol estynedig, gwell darpariaeth bwyd, i gysylltedd â'r ysgol a chymorth emosiynol

***"Mae'r Rhwydwaith bellach yn rhan ganolog o broses hunanwerthuso ein hysgol. Mae'n ein galluogi ni i fesur cynnydd mewn agweddau ar ein dull ar gyfer iechyd a lles ein dysgwyr."***

***"Yn ogystal, gallwn nawr gymharu ein hadborth ag ysgolion eraill ledled Cymru, sy'n ein helpu i fyfyrio ar ein hymarfer a'n darpariaeth."***



# 8. Pam ddylai eich ysgol gynradd ymuno â'r Rhwydwaith?

## Mae'r Rhwydwaith yn darparu...

### Strategaeth ddata ar gyfer hunanwerthuso a gwella'r ysgol

Mae **adroddiadau lefel ysgol** yn galluogi ysgolion i dargedu eu hymateb a blaenoriaethu lles eu dysgwyr.

**Fframwaith seiliedig ar dystiolaeth sy'n galluogi ysgolion i fesur data yn wrthrychol a'i gymhwyso'n gyffredinol i bawb.** Mae'r Rhwydwaith yn defnyddio cwestiynau wedi'u dilysu, sy'n rhoi hyder yn y data a gasglwyd ac sy'n caniatáu am olrhain cynnydd ar draws tonnau'r arolwg a monitro ar draws grwpiau blwyddyn dysgwyr.

**Monitro iechyd, addysg a phrofiad ysgol is-grwpiau bach a/neu agored i niwed yn y boblogaeth**, e.e. plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, gofalwyr ifanc, a phlant a phobl ifanc o dreftadaeth Sipsi, Roma a Theithiwr.

### Datblygiad proffesiynol a rhwydweithio

**Cyfleoedd cyfoethog i gydweithredu'n bwrpasol ac yn ysbrydoledig ag ysgolion tebyg eraill.**

**Cefnogaeth ar gyfer dulliau clwstwr ysgolion, gan alluogi cynllunio gweithredu, gwerthuso ac adborth.** Gweithio ar draws plentyndod a'r glasoed i ddeall a chefnogi digwyddiadau fel pontio i'r ysgol uwchradd yn well.

**Rhwydweithiau sy'n ymgysylltu ag ymarferwyr, arweinwyr, ymchwilwyr a llunwyr polisi** er mwyn i ysgolion rannu profiadau, lledaenu canfyddiadau ymchwil a dysgu gyda'i gilydd.

**Adnoddau wedi'u llywio gan dystiolaeth, gan gynnwys gweminarau a briffiau ymchwil**, sy'n ymgysylltu â holl aelodau cymuned yr ysgol a'u cefnogi.

### Troi tystiolaeth ymchwil iechyd a lles ysgolion yn ymarfer

**Adroddiadau anhysbys ac wedi'u hagregu fel y gellir rhannu data a chynnal trafodaethau â** rhanddeiliaid allweddol yng nghymuned yr ysgol. Hefyd, mae'n annog dysgwyr i fod yn fwy gonest â'u hatebion gan na allant gael eu hadnabod.

**Integreiddio â** WNHWPS, sy'n hysbysu gwaith ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

**Data allweddol i Iechyd Cyhoeddus Cymru** i nodi beth sy'n gweithio i wella iechyd a lles mewn ysgolion.

# 9.

## Mae'r Rhwydwaith yn cefnogi...

### Y Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol a'r Cwricwlwm i Gymru

**Seilwaith ymarfer wedi'i arwain gan ddata i ddylanwadu'n gadarnhaol ar iechyd a lles plant o fewn y dull ysgol gyfan.** Mae ysgolion sy'n defnyddio data ar eu dysgwyr a'r amgylchedd fel tystiolaeth o ymarfer gwybodus wedi cael eu canmol fel mater o drefn gan Estyn.

**Dull targedig ar gyfer adolygu a datblygu'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)** oherwydd gellir edrych ar y data yn ôl grwpiau blwyddyn a rhywedd.

### Diwylliant a datblygiad yr ysgol

**Cyd-gynhyrchu a gwerthuso ymyriadau ysgol gyfan**, gan ddarparu data a all helpu i sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei glywed, bod tystiolaeth ohono a'i fod yn cael ei gynnwys yng nghynllunio'r ysgol.

**Cefnogi diwylliannau sicrwydd ac empathi**, lle gall dysgwyr gael sicrwydd nad ydynt ar eu pen eu hunain o ran eu teimladau a/neu werthfawrogi bod eraill yn teimlo'n wahanol iddyn nhw ac y gall fod angen cymorth arnynt.

**Cydsyniad a diogelu.** Mae Pwyllgor Moeseg Prifysgol Caerdydd wedi adolygu a chymeradwyo ein hymchwil.

**Annog trafodaethau hyderus am flaenoriaethau lles ar holl lefelau cymuned yr ysgol.**

*"Mae bod yn aelod o'r Rhwydwaith yn rhoi mynediad i ymchwil, cymorth a gwybodaeth gyfredol a pherthnasol."*

# 10. Ymunwch â ni

**Yn 2024, cymryd rhan dros 51,000 o ddysgwyr o 510 ysgolion cynradd ledled Cymru yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr SHRN mewn ysgolion cynradd ar bynciau megis bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol, defnyddio dyfeisiau electronig ac ymdrech ysgol.**

Ym mis Mehefin 2026, rydym yn gwahodd pob ysgol gynradd yng Nghymru i ddod yn rhan o'r rhwydwaith iechyd a lles mwyaf, a mwyaf gweithgar, o ysgolion yn y wlad. Byddant yn ymuno â'r 100% o ysgolion uwchradd a gynhelir sydd eisoes wedi'u recriwtio i'r rhwydwaith.

Mae'r Rhwydwaith yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ysgolion cynradd gydweithredu'n bwrpasol ac yn ysbrydoledig ag ysgolion tebyg eraill, gan roi'r cyfle unigryw iddynt hefyd gynhyrchu eu data lefel ysgol eu hunain i lywio'u cynlluniau iechyd a lles a rhoi amrywiaeth eang o welliannau ar waith yn eu hysgol. Mae ein staff yn arwain casgliad amrywiol o rwydweithiau sy'n ymgysylltu ag ymarferwyr, arweinwyr, ymchwilwyr a llunwyr polisi. Mae rhwydweithiau o'r fath yn rhoi cyfle i bawb rannu eu profiadau, lledaenu canfyddiadau ymchwil a dysgu gyda'i gilydd.

Yn ei dro, mae ein partneriaid a'n cydweithredwyr rhanbarthol a chenedlaethol yn defnyddio data'r Rhwydwaith i gefnogi ysgolion a sicrhau buddsoddiad yng nghymunedau ysgolion, gan greu cyfleoedd targedig i blant a phobl ifanc trwy gyflwyno gweithgareddau a mentrau i hybu eu hiechyd a'u lles.

Os ydych chi'n cynrychioli ysgol gynradd yng Nghymru ac yr hoffech ddysgu rhagor am ddod yn aelod o'r Rhwydwaith, neu gwblhau casgliad data 2026, e-bostiwch SHRN@cardiff.ac.uk

## Lawrlwythwch yr adroddiadau hyn

[Lawrlwytho: Canfyddiadau allweddol o Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr Ysgolion Cynradd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2024]

[Lawrlwytho: Lansio Adroddiad Holiadur Amgylchedd yr Ysgol 2024 y Rhwydwaith ar gyfer ysgolion cynradd.]

# 11 Mwy na degawd o ragoriaeth - ein llwyddiannau a'n heffaith

**Rydym wedi torri tir newydd wrth hwyluso'r gwaith o droi tystiolaeth ymchwil iechyd a lles ysgolion yn ymarfer. Rydym yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod ganddynt wybodaeth a chymorth i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i iechyd a lles eu dysgwyr.**

Mae ysgolion ledled Cymru wedi gwreiddio data'r Rhwydwaith yng nghynlluniau datblygu eu hysgol, ac wedi rhoi amrywiaeth o welliannau a mentrau iechyd a lles ar waith, gan gynnwys:

- Cynnig mwy o amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol i hybu gweithgarwch corfforol.
- Gwella gwerth maethol y bwyd a ddarperir.
- Cryfhau a gwella cysylltedd â'r ysgol. a mwy!

Rydym yn hynod falch o'n gwaith a'n cyflawniadau. Ewch i shrn.org.uk i ddarllen am brofiadau ysgolion o gymryd rhan yn y Rhwydwaith a sut galluogodd canlyniadau'r arolwg iddynt ddathlu eu cryfderau a gweithio ar heriau.



***"Mae'r Rhwydwaith wedi ein helpu i ddathlu ein llwyddiannau niferus ynghyd â chyflwyno ymyriadau targedig lle mae'r angen mwyaf amdanynt."***

***"Mae'r Rhwydwaith wedi ein helpu i addysgu ein dysgwyr a'n staff i wneud dewisiadau ffordd o fyw iachus a gwybodus a fydd yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar eu hiechyd a'u lles gydol oes."***

# 12.

'Yn bwysig, mae fy ysgol yn parhau i ddefnyddio ein data SHRN wedi'i addasu i gefnogi ein hunan-werthusiad ysgol ar draws meysydd eraill o iechyd a lles, gan sicrhau bod ein gweithredoedd yn ymateb i anghenion go iawn ein dysgwyr. Rydym yn gyffrous ynghylch parhau i ddefnyddio ein data SHRN i adnabod blaenoriaethau a llunio gweithredoedd penodol sy'n cefnogi iechyd a lles pob un o'n dysgwyr.'

Rydym yn gyffrous am y cyfleoedd i ddefnyddio data SHRN yn fwy strategol, gan ein galluogi i lunio mentrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd o wir fudd i'n dysgwyr.'
Sue Sibert, Pennaeth, Ysgol Gynradd Cogan





Mae arolygon SHRN yn adnodd gwerthfawr gan ein bod yn ei ddefnyddio i'i gymharu â data arall a gesglir gennym i nodi cryfderau a gwendidau. Unwaith y caiff hyn eu nodi, gellir canolbwyntio arnynt fel rhan o'n Cynllun Gwella Ysgol.



"Mae adroddiadau SHRN yn rhoi pwynt cychwyn cyffredin i ni - dyna sy'n ein dod ynghyd fel clwstwr."

Rydym wedi symud o aros am ein data SHRN i ddefnyddio hyn yn weithredol i lunio dyfodol ein hysgol. Mae data SHRN yn rhoi darlun clir i ni o'r hyn mae ein dysgwyr yn ei brofi, ac mae'n rhan allweddol o gynllunio ein hysgol yn awr. Mae'r model hwn wedi trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel clwstwr. Nid yw'n ymwneud â data SHRN yn unig - mae'n ymwneud â diben cyffredin."

Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)
SBARC
Heol Maindy
Caerdydd
CF24 4HQ

shrn.org.uk
shrn@cardiff.ac.uk
The School Health Research Network
School Health Research Network

Cedwir pob hawl. I amddiffyn cyfrinachedd, modelau sy'n ymddangos ym mhob ffotograff.
Cyhoeddwyd gyntaf gan y Rhwydwaith © 2026.